# Datblygu a chynnal perthynas waith ag ymarferwyr eraill

## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon**

Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n gweithio gydag ymarferwyr eraill o fewn a’r tu allan i'r ysgol i roi cymorth cydlynol ar gyfer dysgu a datblygiad disgyblion.

**Am beth mae'r uned hon?**

Mae'r uned hon yn ymwneud â gweithio'n effeithiol gydag ymarferwyr eraill drwy wneud yr hyn a allwch i gynorthwyo eu gwaith a defnyddio eu cryfderau a'u harbenigedd i gynorthwyo a datblygu eich arferion a'ch gweithdrefnau gwaith eich hun.

**Mae'r uned hon yn cynnwys dwy elfen:**

1. Cynnal perthynas waith gydag ymarferwyr eraill
2. Gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal perthynas waith ag ymarferwyr eraill**

P1 rhoi gwybodaeth i gynorthwyo ymarferwyr eraill yn eu rôl yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ysgolion

P2 rhannu gwybodaeth sy'n gyflawn, yn gywir ac o fewn ffiniau eich rôl a'ch cyfrifoldebau

P3 ymateb i gysylltiadau gan ymarferwyr eraill mewn modd sy'n dangos parodrwydd i ddatblygu perthnasoedd gwaith sy'n cyd-fynd â gweithdrefnau'r ysgol

P4 rhoi cyngor, gwybodaeth ac arddangosiadau clir i gynorthwyo eraill i ddatblygu'r sgiliau sydd gennych chi

P5 defnyddio cyfleoedd i ymestyn cysylltiad personol ag ymarferwyr eraill a rhoi sylw uniongyrchol i'w harbenigedd penodol

P6 datblygu dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr eraill gan eu bod yn effeithio ar eich gwaith eich hun

**Gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill**

P7 rhyngweithio ag ymarferwyr eraill mewn modd sy'n debygol o hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder yn y berthynas

P8 rhoi gwybodaeth amserol, briodol a chryno i alluogi ymarferwyr eraill i roi eu cymorth i ddisgyblion

P9 ymateb i geisiadau ymarferwyr eraill am wybodaeth a chymorth mewn modd sy'n dangos parodrwydd i gydweithio lle bo hynny'n rhesymol ac yn briodol

P10 egluro'n glir unrhyw ffactorau sy'n cyfyngu ar eich gallu i gydweithio

P11 cyfrannu'n effeithiol at gynllunio a rhoi camau gweithredu ar y cyd ar waith

P12 cyflawni ymrwymiadau y cytunwyd arnynt mewn modd dibynadwy i ymgymryd â gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill

P13 chwilio am gyfleoedd i fanteisio ar sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr eraill a'u defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo eich rôl eich hun

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 sut i sefydlu a chynnal perthynas waith effeithiol ag ymarferwyr eraill

K2 egwyddorion cyfathrebu effeithiol a sut i'w cymhwyso er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag ymarferwyr eraill

K3 pwysigrwydd cyfnewid gwybodaeth ac adnoddau ag ymarferwyr eraill

K4 polisi'r ysgol o ran cyfrinachedd gwybodaeth – pwy sydd â hawl i drosglwyddo pa wybodaeth ac i bwy

K5 protocolau a gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth

K6 eich rôl o fewn yr ysgol a’r cyfyngiadau o ran eich cymhwysedd a'ch maes cyfrifoldeb eich hun

K7 eich rôl mewn gwahanol sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys gweithio amlasiantaethol, a sut rydych chi’n cyfrannu at broses gyffredinol y grŵp

K8 rolau a chyfrifoldebau staff yn yr ysgol ac ymarferwyr eraill sydd mewn cysylltiad â'r ysgol

K9 eich ffiniau chi a ffiniau gweithwyr proffesiynol eraill

K10 pwysigrwydd gweithio mewn modd sy’n cadw at werthoedd, credoau a diwylliant yr ysgol

K11 pwysigrwydd parchu sgiliau ac arbenigedd ymarferwyr eraill

K12 gwerth rhannu sut rydych chi'n ymdrin â'ch rôl gydag ymarferwyr eraill

K13 polisïau a gweithdrefnau’r ysgolion ar gyfer creu a chynnal cysylltiad ag ymarferwyr y tu allan i'r ysgol

K14 sut i benderfynu pryd y dylech roi gwybodaeth a/neu gymorth eich hun a phryd y dylech gyfeirio'r sefyllfa at ymarferydd arall

K15 y cymorth a'r cyngor arbenigol sydd ar gael i chi yn yr ysgol a chan ymarferwyr eraill sydd mewn cysylltiad â'r ysgol

## Geirfa